

# SICRHAU. GWIRIO. COFNODI.

Border Force

## SICRHAU:

**Rhaid i yrwyr sicrhau cerbyd pan fydd yn cael ei lwytho am y tro cyntaf.** Sicrhau cerbydau ag ochr meddal gyda chordyn gogwyddo, wedi'i basio'n dynn drwy'r holl lygadennau a weindwyr. Sicrhau pennau'r cordyn gogwyddo gyda naill ai sêl neu glo wedi'i rifo'n unigryw. Cofnodi'r rhif sêl ar y rhestr wirio.Os caiff tu mewn y cerbyd ei wirio yn ystod y daith, rhaid i'r gyrrwr ailosod y clo, y cordyn gogwyddo neu ddyfais ddiogelwch arall a/neu osod sêl newydd.

Sicrhau cerbydau ag ochr galed a rheweiddiedig gyda sêl, clo neu ddyfais ddiogelwch arall.Dylai gyrwyr gael seliau sbâr i ail-selio'r cerbyd ar ôl pob gwiriad.Rhaid i berchnogion cerbydau ddarparu modd i yrwyr sicrhau'r cerbyd yn briodol, gan gynnwys cordyn gogwyddo, seliau neu gloeon.

## GWIRIO:

**Rhaid i yrwyr wirio cerbyd pan fydd yn cael ei lwytho am y tro cyntaf ar gyfer unrhyw arwyddion o fynediad heb awdurdod.** Ar ôl pob stop rhaid i yrwyr wirio'r cerbyd i sicrhau nad oes unrhyw bobl heb awdurdod wedi mynd i mewn i'r llwyth. Gwiriwch unrhyw seliau, cloeon, cordiau gogwyddo neu ddyfeisiau diogelwch eraill am arwyddion o ddifrod neu ymyrryd cyn ac yn ystod y daith. Gwiriwch ochrau a tho'r cerbyd a gwirio pob compartment allanol.

## COFNODI:

**Rhaid i yrwyr gofnodi ar restr wirio bob gwiriad trwy gydol y daith.** Cofnodi dyddiad, amser a lleoliad pob gwiriad a chofnodi pob rhif sêl ar y rhestr wirio. Dylai gyrwyr gadw rhestrau gwirio sbâr ar gael.Os oes angen llawer o stopiau, defnyddiwch sawl rhestr wirio. Rhaid i berchnogion cerbydau ddarparu modd i yrwyr gadw cofnodion megis rhestrau gwirio a chyfarwyddiadau ysgrifenedig cyn dechrau pob taith.



# Helpwch ni i sicrhau ffiniau'r DU

## Cynllun Achredu Cosb Sifil Llu Ffiniau'r Deyrnas Unedig

Rydym yn cynnig cynllun i gludwyr sy'n cydymffurfio'n gyson â diogelwch cerbydau ac yn eu cynnal. Gall aelodaeth o'r cynllun leihau cosb yn sylweddol.

Os hoffech i'ch cwmni gael ei ystyried ar gyfer y cynllun hwn, llenwch y ffurflen gais (**www.gov.uk/government/publications/civil-penalty-accreditation-scheme**) ar wefan GOV.UK ac anfon hon at **BF.CPAS@homeoffice.gov.uk.**

**I weld rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth cosb sifil, cysylltwch â:**
Clandestine Entrant Civil Penalty Team (Tîm Cosb Sifil Dyfodiaid Dirgel)
Border Force South East
Ground Floor, Martello House, Shearway Road, Shearway Business Park, Folkestone, Caint, CT19 4RH, Y Deyrnas Unedig
**Ffôn:** +44 (0)300 071 0104
**BF.CECPT@homeoffice.gov.uk**

**I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cosb Sifil Dyfodiaid Dirgel, sganiwch ar y cod QR:**

SICRHAU. GWIRIO. COFNODI.

CIVIL PENALTY ACCREDITATION